**Yr Adran Orthopteg**

# Cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio Atropine adeg Profion Golwg Plant
## Gwybodaeth i gleifion

---

**Mae eich plentyn angen prawf ar gyfer sbectol ac archwiliad manwl o gefn y llygad…**

I alluogi'r Offthalmolegydd/ Optometrydd i wneud hyn, mae'n rhaid rhoi diferion Atropine yn llygaid eich plentyn. Bydd yr Atropine yn ymledu canhwyllau'r llygaid ac atal ffocysu. Rhaid rhoi'r diferion i mewn ddwy waith y dydd am dri diwrnod cyn apwyntiad eich plentyn.

**Pam mae fy mhlentyn angen diferion Atropine?**
Rhesymau posibl pam maen nhw wedi gofyn i chi roi Atropine yn llygaid eich plentyn:

- Nid oedd y gannwyll wedi ymledu digon gyda diferion Cyclopentolate sy'n cael eu defnyddio fel arfer.
- Mae'n bosibl y bydd gan eich plentyn alergedd i fathau eraill o ddiferion a ddefnyddir.

**A oes unrhyw sgil effeithiau?**
- Gall y gannwyll barhau i fod wedi ymledu am hyd at 2 wythnos. Mae'r ffocysu'n dod yn ôl yn raddol o fewn 3 diwrnod.
- Tra bod y gannwyll wedi ymledu, ni fydd eich plentyn yn hoffi golau llachar.
- Yn anghyffredin iawn, gellir cael adwaith alergaidd. Gall hyn esgor ar lygaid arbennig o goch, rhai sych neu groen wedi cochi. **Os bydd hyn yn digwydd, peidiwch â defnyddio'r diferion a chysylltwch â'r Clinig Llygaid (01633 238856) neu eich Meddyg Teulu.**

**Pwysig!**
Os bydd eich plentyn angen unrhyw driniaeth feddygol arall, cofiwch sicrhau bod eich Meddyg/ Deintydd yn gwybod ei fod yn defnyddio Atropine.

**Cyfarwyddiadau ar gyfer rhoi diferion yn llygaid plant:**

- Storiwch ddiferion Atropine ar dymheredd ystafell ac allan o gyrraedd plant.
- Golchwch eich dwylo cyn ac ar ôl rhoi'r diferion yn y llygad.
- Gyda eich plentyn yn gorwedd lawr, rhowch un diferyn o Atropine ym mhob llygad.
- Dylid rhoi diferion yn llygaid eich plentyn ddwy waith y dydd(bore a nos) am dri diwrnod cyn yr apwyntiad gyda'r Offthalmolegydd/ Optometrydd ond nid ar ddiwrnod yr apwyntiad.

- Peidiwch â’u defnyddio heblaw ar y person a gafodd y presgripsiwn.
- Ar ôl eu hagor, peidiwch â’u hail-ddefnyddio.
- Ar ôl eu defnyddio, gwaredwch y diferion sydd ar ôl a’r pecyn.

**Nodiadau neu gyfarwyddiadau pellach:**

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**